**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 02-16 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Ionawr 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddSafonau@cynulliad.cymru

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 02-16 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Ionawr 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

---

**Aelodau y Pwyllgor**



**Mick Antoniw (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Llyr Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru

---

Ymddiswyddodd Mick Antoniw fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ar 11 Rhagfyr 2015, yn unol Rheol Sefydlog 22.4 ni fydd dirprwy yn bresennol ar ei ran yn y cyfarfod ar 12 Ionawr 2016.

# Cynnwys


Casgliad ac Argymhelliad ........ 5

1. Cyflwyniad ........ 6

2. Ystyried y gŵyn ........ 7

Atodiad 1 ........ 10

## Casgliad ac Argymhelliad

**Casgliad y Pwyllgor:** Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi'u torri gan Ann Jones AC, mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r Cynulliad mewn modd amhriodol. (Tudalen 8)

**Argymhelliad y Pwyllgor:** Penderfyniad unfryd y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.11(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. (Tudalen 9)

# 1. Cyflwyniad

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> "mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."[2]

2. Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad[3] ("y Weithdrefn") ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Ann Jones AC.

3. Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd") ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad 1. Mae'n nodi manylion am y gŵyn a chasgliadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriwyd wrth lunio argymhelliad y Pwyllgor.

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 22

[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 22(i)

[3] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad

## 2. Ystyried y gŵyn

5. Roedd y gŵyn yn honni bod yr Aelodau dan sylw wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 10 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n dweud:

> "Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r Canllawiau i Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad, a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Tŷ, ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol."[4]

6. Yn yr achos hwn, cynhaliwyd digwyddiad a oedd yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol mewn ystafell gyfarfod yn y Senedd, yn enw'r Aelod dan sylw. At hynny, nid oedd yr Aelod dan sylw yn bresennol yn y digwyddiad. Mae'r Canllawiau a ddarperir i Aelodau'r Cynulliad yn dweud na ddylai ystafelloedd gael eu harchebu yn unswydd ar gyfer hyrwyddo gwaith unrhyw blaid wleidyddol.[5]

7. Mewn datganiad ysgrifenedig, dywedodd yr Aelod dan sylw fod yr ystafell wedi ei harchebu gan aelod o staff cymorth yr Aelod Cynulliad ("AMSS") heb yn wybod iddi, a dywedodd:

> "I was made aware of the booking after the 15 May but before the event. I was not present at the event and it was only subsequently that I was made aware of the nature of it and that it was not as originally described."[6]

8. Cydnabu'r Aelod dan sylw ei bod hi'n gyfrifol am ymddygiad staff cymorth sy'n gweithredu ar ei rhan.[7]

9. Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 i drafod adroddiad y Comisiynydd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth i fod yn sail i'w drafodaethau, ac nad oedd angen ceisio rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar.

10. Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith eto ar 12 Ionawr 2016 er mwyn cytuno ar ei adroddiad ynghylch y gŵyn hon.

---

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
[5] Canllawiau ar Ddefnyddio Ystafelloedd Cynadledda, Cyfarfod a Phwyllgora
[6] Datganiad Ann Jones AC, 18 Tachwedd 2015
[7] ibid

## Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor

11. Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

12. Wrth ystyried a dorrwyd y rheol, adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth yn adroddiad y Comisiynydd, gan nodi barn y Comisiynydd fod yna "achos clir o dorri amodau".

13. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor i'r Comisiynydd ddweud hefyd:

> "Mae'n arfer fod staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn archebu ystafelloedd yn rheolaidd ar ran Aelodau.
>
> "Gwnaed yr archeb dan sylw yn enw Ann Jones AC, gan aelod o staff cymorth yr Aelod Cynulliad ar y pryd, ar 15 Mai 2015."[8]

**Casgliad y Pwyllgor - Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi'u torri gan Ann Jones AC, mewn perthynas â defnyddio adnoddau'r Cynulliad mewn modd amhriodol.**

## Argymhelliad y Pwyllgor - Cosbau posibl

14. Wrth ystyried ei argymhelliad, nododd y Pwyllgor mai aelod o staff cymorth yr Aelod Cynulliad a archebodd yr ystafell. Fodd bynnag, roedd yr Aelod yn ymwybodol cyn y digwyddiad fod yr ystafell wedi'i chadw yn ei henw hi ond ni aeth i'r digwyddiad.

15. Mae achos o dorri rheolau gan unrhyw Aelod Cynulliad yn fater difrifol ym  marn y Pwyllgor. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos gonestrwydd ac arweiniad yn eu gweithredoedd.

16. Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod i'r rheolau gael eu torri, mae'r Pwyllgor yn derbyn i'r ystafell gael ei harchebu gan aelod o staff cymorth yr Aelod Cynulliad heb yn wybod iddi, er ei bod yn amlwg y dylai fod wedi bod yn bresennol.

17. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ynghylch eglurder y canllawiau ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cynulliad ac mae'n cytuno â'r newidiadau a awgrymwyd er mwyn sicrhau bod aelodau o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn gwneud datganiad wrth archebu ystafell ar ran Aelod.

[8] Adroddiad y Comisiynydd Safonau

**Argymhelliad y Pwyllgor - Penderfyniad unfryd y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.11(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.**

18. Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw, a chafodd wybod hefyd am ei hawl i apelio o dan adran 8 o'r Weithdrefn.

19. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

# Atodiad 1

**Gan:** Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau
**At:** Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL
## Ann Jones AC

**Y gwyn**

1. Drwy neges e-bost dyddiedig 1 Gorffennaf 2015, cefais gwyn gan [tynnwyd yr enw] (yr achwynydd) yn ymwneud â defnydd amhriodol o adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol.

2. Roedd y gwyn yn honni bod digwyddiad wedi'i gynnal mewn ystafell yn y Senedd ar 30 Mai 2015 ac roedd y digwyddiad yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol, yn cynnwys Llafur Ifanc. Cyfeiriwyd at y Canllawiau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n dweud ***na ddylid archebu ystafelloedd yn unswydd ar gyfer hyrwyddo gwaith unrhyw blaid wleidyddol*** (atodiad 1 i'r Canllawiau ar Ddefnyddio Ystafelloedd Cynadledda, Cyfarfod a Phwyllgora).

3. Ar yr olwg gyntaf, roedd yn ymddangos bod Ann Jones AC, drwy aelod o'i staff cymorth (AMSS), [tynnwyd yr enw], wedi trefnu ystafell i gynnal 'Fforwm i Bobl Ifanc', ddydd Sadwrn 30 Mai, rhwng 14.00 a 16.00. Cafodd yr ystafell ei harchebu ar 15 Mai. Roedd gwybodaeth bellach yn awgrymu bod Aelod Seneddol Llafur ac un o ymgeiswyr y blaid yn bresennol, a bod cynnwys gwleidyddol cryf i'r cyfarfod.

4. Felly, roeddwn yn fodlon bod y gwyn yn dderbyniadwy gan ei bod yn codi'r cwestiwn ai cyfarfod yn ymwneud â busnes y Cynulliad oedd hwn neu gyfarfod at ddibenion plaid wleidyddol yn bennaf. Roeddwn yn fodlon hefyd fod gofynion paragraff 3.1 (i)-(vi) o'r Weithdrefn berthnasol ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ("y Weithdrefn") wedi'u bodloni. Yn unol â hynny, symudais ymlaen at y cam ymchwilio ffurfiol.

**Ymchwiliad Ffurfiol y Comisiynydd**

5. Ar 6 Gorffennaf, ysgrifennais at Ann Jones AC a dyma a ddywedodd yn ei hymateb dyddiedig 15 Gorffennaf:
    - *"..the room booking was made in my name"*

- *“The meeting was for party political purposes”*
- *“I was not present”.*

Ychwanegodd nad oedd wedi cael gwybod i ddechrau bod ystafell wedi ei harchebu na beth oedd cynnwys y digwyddiad. Dywedodd nad oedd hi’n ymwybodol mai cyfarfod gwleidyddol ydoedd a daeth hynny i’r amlwg ar ôl y digwyddiad.

6. Mewn datganiad wedi’i lofnodi ar 18 Tachwedd 2015, cadarnhaodd Ann Jones fanylion ei llythyr cynt gan ychwanegu:
    - Roedd yn ymwybodol bod ystafell wedi ei harchebu ar ôl 15 Mai ond cyn y digwyddiad;
    - Nid ‘Fforwm i Bobl Ifanc’ oedd y digwyddiad, er mai dyna a nodwyd ar y ffurflen archebu;
    - “*I appreciate that I am responsible for the conduct of my AMSS in respect of his actions on my behalf as an AM.”*
    - *Ynghlwm wrth y datganiad roedd copi o lythyr dyddiedig 19 Mehefin oddi wrth [tynnwyd yr enw] at Ann Jones AC, yn awgrymu bod yr aelod o staff cymorth wedi archebu’r ystafell heb ymgynghori â’r Aelod a heb roi gwybod iddi ymlaen llaw beth oedd natur y cyfarfod.*
7. Cefais gopi o’r ffurflen archebu berthnasol ynghyd â negeseuon e-bost oddi wrth [tynnwyd yr enw] at yr aelod cyfrifol o staff Comisiwn y Cynulliad.

**Y ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd**

8. Cadarnhawyd y ffeithiau perthnasol a ganlyn:

(i) Mae’r canllawiau ar gyfer Aelodau ynghylch defnyddio ystafelloedd cyfarfod ar ystadau’r Cynulliad yn nodi:

- Mae’n rhaid i’r ystafell gael ei harchebu gan Aelod Cynulliad;
- Mae’n rhaid i’r ystafell gael ei defnyddio yng nghyswllt busnes y Cynulliad;
- Ni ddylai’r ystafell gael ei harchebu yn unswydd ar gyfer hyrwyddo gwaith unrhyw blaid wleidyddol;
- Mae’n rhaid i’r Aelod sy’n noddi’r digwyddiad (neu Aelod Cynulliad arall) fod yn bresennol ei hun drwy gydol y digwyddiad.

(ii) Mae’n arfer fod staff cymorth Aelodau’r Cynulliad yn archebu ystafelloedd yn rheolaidd ar ran Aelodau.

(iii) Gwnaed yr archeb dan sylw yn enw Ann Jones AC gan [tynnwyd yr enw], sef aelod o staff cymorth yr Aelod Cynulliad ar y pryd, ar 15 Mai 2015.

(iv) Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd ar 30 Mai 2015 yn un a oedd yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol.

**Casgliadau**

9. Nid oes gennyf reswm i amau honiad yr Aelod nad oedd hi'n ymwybodol fod yr ystafell wedi'i harchebu i ddechrau, ac nad oedd hi'n ymwybodol o wir ddiben y digwyddiad dan sylw.
10. Yn yr un modd, nid oes gennyf reswm i amau'r hyn a ddywedir yn y llythyr dyddiedig 19 Mehefin gan [tynnwyd yr enw], yr aelod o staff cymorth.
11. Mae'n glir bod yr Aelod yn gwybod ei bod yn ofynnol iddi fod yn bresennol mewn digwyddiad a drefnwyd yn ei henw hi.
12. At hynny, mae'r Aelod yn derbyn ei bod hi'n gyfrifol am ymddygiad ei staff cymorth pan fyddant yn gweithredu yn ei henw hi.
13. **O dan yr amgylchiadau hyn, rwyf wedi fy modloni bod achos clir o dorri amodau Paragraff 10 o'r Cod Ymddygiad gan yr Aelod dan sylw, drwy fethu â chydymffurfio â'r Canllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad oherwydd:**
    - **cynhaliwyd digwyddiad yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol yn ei henw ar Ystâd y Cynulliad ac**
    - **nid oedd hi (nac Aelod arall o'r Cynulliad) yn bresennol yn y digwyddiad a drefnwyd yn ei henw.**

    Felly, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gyfrifol am ymdrin â'r Aelod o dan Reol Sefydlog 22.2.

**Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion**

14. Rwy'n cadarnhau:
    - Bod yr Aelod dan sylw wedi cael copi drafft o'm hadroddiad terfynol ac nid oedd am nodi unrhyw wallau ffeithiol ynddo.
    - Ers ei chwyn ysgrifenedig cychwynnol, nid yw'r achwynydd wedi ymateb i unrhyw ohebiaeth gennyf.

**Amrywiol**

15. Rwy'n atodi'r canlynol i'r adroddiad:
    - Y llythyr gwreiddiol oddi wrth yr Aelod dyddiedig 15 Gorffennaf 2015

- Datganiad Ann Jones AC dyddiedig 18 Tachwedd 2015, sydd wedi'i lofnodi
- Copi o lythyr [tynnwyd yr enw] at Ann Jones AC dyddiedig 19 Mehefin 2015
- Y ffurflen archebu wreiddiol.

16. Fel y nodir yn natganiad yr Aelod ac fel y rhagwelir yn ei llythyr dyddiedig 15 Gorffennaf, mae'r Aelod yn cynnig talu swm o £250 i Gomisiwn y Cynulliad i dalu am logi'r ystafell - gan na ddylai'r gost honno gael ei thalu o bwrs y wlad.


**Materion eraill**

**17.** Er nad yw'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar y casgliadau a nodir gennyf uchod, fel rhan o'r gwaith ymchwilio a wnaed gennyf i'r mater hwn, a chan arfer fy mhwerau o dan adran 7(c) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 sy'n pennu rheolau fy mhenodiad, rwyf wedi rhoi gwybod i Gomisiwn y Cynulliad fy mod yn bwriadu gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Pwyllgor:

A. Dylid gwneud y canllawiau ysgrifenedig ynghylch defnyddio ystafelloedd pwyllgora ac ystafelloedd eraill yn gliriach a phwysleisio mai dim ond ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â busnes y Cynulliad y dylid defnyddio'r ystafelloedd hyn.

B. Er nad wyf am atal staff cymorth Aelodau'r Cynulliad rhag archebu ystafelloedd ar ran Aelodau, dylai'r ffurflen archebu gynnwys datganiadau gan y sawl sy'n archebu ystafelloedd i gadarnhau'r canlynol:
   - **Bod y cyfarfod yn ymwneud â busnes y Cynulliad**
   - **Nad yw'r cyfarfod yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol**
   - **Bydd yr Aelod Cynulliad y mae'r ystafell wedi ei harchebu yn ei enw yn bresennol yn y digwyddiad.**

18. Rwyf wedi cael ar ddeall gan Glerc y Cynulliad fod yr argymhellion hyn wedi'u derbyn a'u gweithredu.



Gerard Elias QC
28.11.2015

Annex A

## ANN JONES AM/AC
## Vale of Clwyd / Dyffryn Clwyd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mr Gerard Elias, QC
Standards Commissioner,
The Pierhead,
Cardiff CF99 1NA

July 15, 2015

Dear Mr Elias,

Thank you for your correspondence July 6th 2015.

You have asked a number of questions relating to a complaint made and I will answer those as follows

1. I will confirm that the room booking was made in my name
2. The meeting was for party political purposes
3. I was not present
4. No formal written invitations were issued to my knowledge

Whilst answering those questions I would ask you to consider the following as mitigating circumstances;

I was not made aware initially of the booking or indeed the content of the event but was subsequently informed that a booking had been made for the 30th May. I was not aware it was for party political purposes and this came to light after the event.

[redacted] realises he did wrong and has apologised most sincerely for this serious lack of judgement. He also realises that this action will be subject to a formal disciplinary procedure.

[redacted] is a very talented young researcher who cares passionately about politics and the Assembly, I believe his enthusiasm and his eagerness to please his peers may have contributed to this serious lapse in judgement.

However, [redacted] recognises that this does not excuse his actions.

As his employer, I realise that his actions are out-with the Assembly protocol and I have encouraged him to reflect upon the damage this has caused to his reputation, my reputation and the reputation of the Assembly as an institution.

Constituency Office / Swyddfa Etholaeth
25 Kinmel Street, Rhyl LL18 1AG / 25 Stryd Cinmael, Y Rhyl LL18 1AG
01745 332813 01745 369038
Email/Ebost: ann.jones@wales.gov.uk

Annex A

## ANN JONES AM/AC
## Vale of Clwyd / Dyffryn Clwyd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

As a step towards a resolution to this unfortunate incident I have suggested that the costs of hiring this room at the Senedd should be reimbursed.

Upon [redacted]'s return to work, he is aware that this serious lapse of judgement will be dealt with formally.

I hope that you can accept the above not as excuses but as mitigating circumstances relevant to the complaint made.

Regards

**Ann Jones AM**

Constituency Office / Swyddfa Etholaeth
25 Kinmel Street, Rhyl LL18 1AG / 25 Stryd Cinmael, Y Rhyl LL18 1AG
01745 332813 01745 369038
Email/Ebost: ann.jones@wales.gov.uk

Annex B

**STATEMENT of ANN JONES AM**

1 I am the Assembly Member for the Vale of Clwyd.

2 As such, I acknowledge that I am aware of the Code of Conduct for Assembly Members and, in particular, in relation to this statement, the need to comply with Regulation 10 of the Code requiring my compliance with the Guidance for Members on the Use of Assembly Resources.

3 On the 15th May 2015, a booking was made for a room in Ty Hywel to hold what was described at the time as a "Young Peoples' Forum" on Saturday, 30th May.

4 The booking was made in my name by my AMSS, [redacted]

5 I was made aware of the booking after the 15th May but before the event.

6 I was not present at the event and it was only subsequently that I was made aware of the nature of it and that it was not as originally described.

7 I now know the meeting was for party political purposes.

8 In acknowledging that this was a misuse of National Assembly resources, I further confirm that I was in breach of the appropriate guidance in having a room booked in my name and not attending the event concerned.

9 I appreciate that I am responsible for the conduct of my AMSS in respect of his actions on my behalf as an AM.

10 My AMSS has apologised to me in writing (copy provided to the Commissioner for Standards) for his serious lapse of judgement in making a booking in my name which was not for the purpose he described.

11 Further, I understand that the cost of booking a 2 hour slot in a comparable venue in Cardiff Bay would be of the order of £250 and I propose to pay the Assembly Commission this sum because the room was used for party political purposes.

**Signed**..........................................

**18.11.2015**

Annex C

[redacted]

19th June 2015

Dear Ann,

After having taken the time to reflect on the meeting held recently at the Assembly, during which we discussed my booking of the Media Briefing Room without consulting you, I would like to offer my sincere and unreserved apology to you.


I agree that allowing this meeting to go ahead without your knowledge was a serious lapse of judgement on my part, which may now cause significant problems for you. I am very sorry for this and take full responsibility for my actions.

I know that trust is a fundamental principle in our office and I accept and regret that I have broken this trust you have placed in me. I am anxious to restore that relationship of mutual trust. I can assure you that I will not repeat any such actions in the future. I very much hope we can restore our very positive and successful working relationship.

Yours,

[redacted]

# Annex D


Schedule
Maintenance
Reports
Close View
Booking
View
Open
All Rooms accommodation
Go To Date
Add
Remove
New
View
Navigation
Rows
Committee Room 2
Committee Room 3
Main Debating Chamber
Oriel
Neuadd
Cwrt
Media Briefing
Office 7
2015 May
29 Friday (Holiday)
30 Saturday (Holiday)
31 Sunday (Holiday)
June
1 Monday
2 Tuesday
3 Wednesday
4 Thursday
Booking Properties
General
Resources
Attachments
Type: General Meeting
Start: 30/05/2015 14:00
End: 30/05/2015 16:00
Task: APS Ref (49860)
Meeting
Size: 1
Notes:
Req: Laptop/PPT/Screen
[redacted] to escort the externals TVP
Security made aware this meeting is taking place and confirmed bodies will be in place TVP
Questions & Answers
All Questions
Question
Answer
Meeting Title (Eng)
Young People's Forum
Meeting Title (Wel)
Young People's Forum
Attendance Numbers
30
Layout
Theatre
Members
Ann Jones
Refreshments
None
External Attendees
Yes
Number of External Atte...
25
Guidance
Not Necessary
Invitation reminder
Not Necessary
Organiser
[redacted]
Date Booking Confirmed
15/05/2015
OK
Cancel
All Rooms accommodation
Booking made by Tracey on 15/05/2015 09:49 and last changed by hopebrownt on 12/06/2015 09:39
11:33
03/07/2015